



LAUGH EMPOWERED PSCI

Cyllid Arbenigedd SMART Llywodraeth Cymru'n cefnogi datblygu cynnyrch newydd i gysuro pobl â dementia dwys.



- **LAUGH:** Ludic Artefacts Using Gesture and Haptics
- **EMPOWERED:** Evaluation and Making: Playful Objects for Wellbeing, Emotional Regulation and Engagement for Dementia
- **PSCI:** Post Stroke Cognitive Impairment
- **AHRC:** Arts and Humanities Research Council
- **CARIAD:** Centre for Applied Research in Inclusive Arts and Design

Mae HUG gan LAUGH® yn darparu cysur i gleifion sy'n byw gyda dementia a nam gwybyddol ar ôl strôc

Mae prosiect LAUGH project – cydweithrediad byd-eang gan brifysgol o Gymru gydag ymchwilwyr o brifysgolion yn Awstralia a Lloegr, wedi'i ariannu gan AHRC – wedi datblygu ystod o wrthrychau arloesol i wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia dwys.

Dros dair blynedd o ymchwil treiddgar, datblygwyd chwe gwrthrych arloesol a chwareus, a phob un â'r potensial i gynnig manteision iechyd o bobl sy'n dioddef o glefydau niwroddirwyiol.

Mae'r prosiect yn adeiladu ar ymchwil llesiant sy'n dangos fod gan bobl sy'n hapus mewn gofal preswyl ddisgwyliad bywyd hwy, eu bod yn llai tebygol o ddisgyn, a bod angen llai o feddygiaeth

arnyn nhw. Bydd prosiect **LAUGH EMPOWERED PSCI** yn gweld un o'r chwe gwrthrych prototeip yn cael ei werthuso mewn lleoliad ysbyty a chartref gofal preswyl, o ganlyniad i wariant Arbenigol SMART Llywodraeth Cymru.

Gan ddarparu manteision iechyd corfforol a meddyliol i bobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol ac yn methu â chyfathrebu o ganlyniad i'w cyflwr, bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu gwrthrychau chwareus all ddod â chysur pleser ac ailgysylltu â'r bobl o'u cwmpas.

Darparwyd cyfanswm o £185,212 gan dîm arloesi Llywodraeth Cymru – defnyddir yr arian hwn i ddatblygu cynnyrch mwyaf blaenllaw'r prosiect, HUG®: dyfais synhwyrdd feddal y gellir ei gwisgo, sydd wedi'i fewnblannu ag electroneg a gynlluniwyd i ddarparu cysur pan fydd claf yn ei gofleidio.

Dan arweiniad yr Athro Cathy Treadaway o CARIAD ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, mae HUG® yn cael ei werthuso ochr yn ochr ag arbenigwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol y GIG Caerdydd a'r Fro, a Sunrise Senior Living.

Cynlluniwyd y gwrthrych fel peth chwareus y gellir ei gofleidio, ond mae ganddo hefyd galon electronig sy'n curo – ac mae'n chwarae hoff gerddoriaeth y perchennog. Mae Dr Ben Jelley wrthi'n gwerthuso'r ddyfais ar hyn o bryd gydag 20 claf yng Nghanolfan Adsefydlu Strôc Ysbyty Llandochoau. Mae 20 arall o'r HUGs® yn cael eu treialu gyda phreswylwyr sy'n byw gyda dementia yng Nghartref gofal Sunrise, Caerdydd, er mwyn ymestyn gwerthusiad y cynnyrch.

"Fel Cyfarwyddwr Gofal Cof ein sefydliad, rwy'n arwain ar sicrhau ein bod ni'n darparu adnoddau blaengar, yn seiliedig ar dystiolaeth, a fydd yn galluogi ein preswylwyr i fyw'n dda gyda dementia.

"Dyna pam roeddwn wrth fy modd pan wahoddwyd ni gan yr Athro Cathy Treadaway i fod yn rhan o'r prosiect hynod gyffrous hwn i wella llesiant ein preswylwyr sy'n byw gyda dementia mwy dwys. Mae hefyd yn gyfle gwych i gefnogi ein preswylwyr a'u teuluoedd i gyfrannu at wybodaeth newydd yn y maes hwn.

"Fe wnaethon ni ddechrau ein prosiect ym mis Mai 2019 ac yn raddol, cyflwynwyd HUG® dros 3 mis, ac erbyn hyn mae 15 o'n preswylwyr yn ei ddefnyddio. Mae deg o'r preswylwyr wedi dangos gwelliant o ran llesiant, sy'n amlwg nid yn unig yn y sgôr maen nhw'n ei gyflawni, ond hefyd yn y profiadau y mae staff a theuluoedd yn sôn amdanynt. Mae pump o'r preswylwyr wedi dangos gwelliant bach mewn gweithrediad gwybyddol yn ogystal."

Jackie Pool,
Cyfarwyddwr Gofal Cof gyda Sunrise Senior Living

Llwyddiannau Allweddol:

- Cyllid Arbenigedd SMART Llywodraeth Cymru sylweddol o £185,212 – i gefnogi sefydliadau o Gymru i arloesi, cyflwyno cynnyrch newydd a llwyddo.
- Tair blynedd o ymchwil manwl ac eang wedi'i gyllido gan y Cyngor Ymchwil i'r Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) – gydag un brifysgol o Gymru'n chwarae rhan bwysig mewn ymchwil a datblygu er budd ffyniant a thwf yng Nghymru.
- Datblygu a chynhyrchu gwrthrychau chwareus sy'n sensitif i ofnion pobl sy'n byw gyda dementia dwys.
- Cefnogi triniaeth pobl sy'n byw gyda dementia ar gyfer y dyfodol drwy gyfrwng cydweithio llwyddiannus gyda'r GIG.

Mae LAUGH yn enghraifft ragorol o'r modd y gall partneriaethau diwydiant weithio gyda chyllid Llywodraeth Cymru i drosi syniadau arloesol ar sail ymchwil yn gynnyrch. Â llai na blwyddyn i fynd cyn i'r prosiect ddod i ben, mae'n parhau i fod yn uchelgeisiol ynghylch ceisio mwy o gyllid, a fyddai'n galluogi i fwy o brofi a datblygu'r cynnyrch ddigwydd, er mwyn bod o fudd i bobl sy'n byw â dementia.

"Mae dod o hyd i rywbeth i bobl â dementia ei wneud sy'n eu cysylltu â phwy ydyn nhw ac â'r bobl o'u cwmpas, yn bwysig iawn. Dyna mae ein cynnyrch yn anelu at ei wneud: darparu cysur, llawenydd, pleser ac ailgysylltu. Rydyn ni'n canolbwyntio'n fawr iawn ar ymgysylltu â'r synhwyrâu. Bydd y rhan fwyaf o bobl yng nghyfnodau olaf y clefyd wedi'u cyfyngu i gadair neu wely; os gallwch gynyddu llesiant rhywun, gall hynny'n aml effeithio ar eu hiechyd mewn ffordd gadarnhaol dros ben."

Yr Athro Cathy Treadaway,
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd



Amserlen y Prosiect:

- **2015 – 2018:** Ymchwil LAUGH yn dechrau gyda chefnogaeth ariannol AHRC, er mwyn datblygu HUG®.
- **Medi 2018:** HUG gan LAUGH® yn cael ei ddethol ar gyfer rownd derfynol categori 'Cynnyrch Gofal Dementia Eithriadol 2018' yng Ngwobrau Gofal Dementia Cenedlaethol 2018.
- **2018 – 2020:** Gwerthuso HUG gan LAUGH® gan y GIG a Sunrise Senior Living.

Busnes | Business
Cymru | Wales

Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Dysgwch ragor am y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/innovation/cy



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund